LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

# EIN RÔL PAN GYNIGIR NEWIDIADAU I IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL



Llais yw'r **corff cenedlaethol, annibynnol** a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i roi llais cryfach i bobl Cymru yn eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Rydym yma i sicrhau bod eich barn a'ch profiadau yn cael eu defnyddio gan benderfynwyr i gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gwell.

Rydym yn casglu eich profiadau — da a drwg — yna'n gweithio gyda darparwyr lleol y GIG a gofal cymdeithasol i ymateb i'r pethau sydd bwysicaf i bobl yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Oherwydd ein bod yn gorff statudol, mae'n rhaid i sefydliadau'r GIG ac awdurdodau lleol wrando.

Rydym yn sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed pan fydd newidiadau yn cael eu cynnig, hefyd.



## Pryd cynigir newidiadau

Mae'n rhaid i'r GIG ac awdurdodau lleol gynnwys pobl wrth gynllunio, datblygu a dylunio gwasanaethau, o'r dechrau er mwyn iddynt allu deall anghenion presennol pobl ac yn y dyfodol.

Mae angen iddynt hefyd ddweud wrthym pan fyddant yn gwneud newid i wasanaethau sy'n effeithio ar bobl.

Ein rôl ni yw helpu i sicrhau eu bod yn gofyn i chi am eich barn ac yna'n meddwl am yr hyn rydych chi'n ei ddweud ac yn ymateb iddo.

Felly rydyn ni'n gofyn iddyn nhw amlinellu:

- **pam maen nhw'n meddwl bod angen i bethau newid**
- **beth fydd, yn eu barn nhw, yn well i bobl o dan y newidiadau**
- **pwy fydd yn cael ei effeithio os bydd pethau'n newid**
- **faint fydd y gost**

Yna byddwn yn edrych ar yr hyn y mae'r GIG neu'r awdurdod lleol yn bwriadu ei wneud i sicrhau bod pobl yn gwybod am eu syniadau ar gyfer newid ac y gallant rannu eu barn a'u syniadau yn hawdd neu ofyn cwestiynau.

## Beth rydyn ni'n ei wneud ar ôl i chi rannu eich barn a'ch syniadau

Rydym yn edrych yn ofalus ar yr hyn y mae pobl wedi'u dweud ac yn sicrhau bod y bwrdd iechyd lleol neu'r awdurdod lleol:

- **wedi meddwl yn ofalus am yr hyn y mae pawb wedi'u dweud**
- **yn defnyddio'r hyn y mae pobl wedi'u dweud i newid ei gynlluniau lle mae angen**
- **yn ateb y cwestiynau ac unrhyw bryderon y mae pobl wedi'u codi**


Byddwn yn meddwl am:

- **yr effeithiau da a drwg ar bob cymuned**
- **sut y gall grwpiau penodol o bobl gael eu heffeithio**
- **sut y gallai gwasanaethau gael eu heffeithio os bydd pethau'n newid neu os nad ydynt yn newid**
- **a oes pethau y gall y bwrdd iechyd neu'r awdurdod lleol eu gwneud i gyfyngu ar unrhyw effeithiau negyddol**

Os nad ydym yn credu ei bod nhw wedi:

- **rhoi digon o gyfle i bobl ddweud eu dweud**
- **meddwl yn iawn am yr hyn y mae pobl wedi eu dweud**
- **ateb pryderon pobl; neu**
- **cynnig y ffordd orau ymlaen**

Byddwn yn dweud wrthynt ac yn gofyn iddynt **wneud mwy** i ymateb i'r pethau y mae pobl yn **poeni amdanynt**. Os nad yw hynny'n gweithio, efallai y byddwn yn cymryd camau eraill. **Gall hyn gynnwys gofyn i un o Weinidogion Llywodraeth Cymru ymchwilio i'n pryderon**



## Bod yn rhan o rywbeth pwysig

Rydym yma i sicrhau bod barn a phrofiadau pobl yn cael eu defnyddio gan benderfynwyr i gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gwell.

I gael gwybod mwy am Llais a sut y gallwch chi gymryd rhan mewn gwella iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru gyda ni, cysylltwch â'ch tîm Llais lleol neu ewch i **www.llaiscymru.org**

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni.

Gallwch hefyd ei lawrlwytho o'n gwefan neu cysylltwch â ni i ofyn am gopi.

# EICH TÎM LLAIS LLEOL


**Caerdydd a Bro Morgannwg**
Yn cwmpasu Caerdydd a Bro Morgannwg.

**Ffôn:** 029 2375 0112

**E-bost:** cardiffandvaleenquiries@llaiscymru.org

**Cwm Taf Morgannwg**
Yn cwmpasu Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

**Ffôn:** 01443 405830

**E-bost:** cwmtafmorgannwgenquiries@llaiscymru.org

**Gwent**
Yn cwmpasu Casnewydd, Caerffili, Blaenau Gwent, Sir Fynwy a Thorfaen.

**Ffôn:** 01633 838516

**E-bost:** gwentenquiries@llaiscymru.org

**Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe**
Yn cwmpasu Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.

**Ffôn:** 01639 683490

**E-bost:** nptandswansea.enquiries@llaiscymru.org

**Gogledd Cymru**
Yn cwmpasu Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Wrecsam, Conwy, Ynys Môn a Gwynedd.

**Ffôn:** 01978 356178 / 01248 679284

**E-bost:** northwalesenquiries@llaiscymru.org

**Powys**
Yn cwmpasu Sir Drefaldwyn, Brycheiniog a Sir Faesyfed.

**Ffôn:** 01874 624206 / 01686 627632

**E-bost:** powysenquiries@llaiscymru.org

**Gorllewin Cymru**
Yn cwmpasu Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.

**Ffôn:** 01646 697610

**E-bost:** westwalesenquiries@llaiscymru.org


Mae'r daflen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Rydym yn croesawu galwadau a gohebiaeth yn Gymraeg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg byddwn yn ymateb i chi yn Gymraeg, ac ni fydd hyn yn arwain at oedi.

LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care


© Llais 2023



47256


YMDDIRIEDAETH • CYNWYSOLDEB • ANNIBYNIAETH